Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/ Wrexham County Borough Council
Neuadd y Dref, Wrecsam. LL11 1AY
Guildhall, Wrexham. LL11 1AY
www.wrecsam.gov.uk www.wrexham.gov.uk
Cyfnewid Testun/Text Relay: 18001

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Eich Cyf/Your Ref	
Ein Cyf/Our ref	
Dyddiad/Date	Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2019
Gofynner am/Ask for	Sarah Royce
Rhif Cyswllt/Contact No	01978 292240
E-bost/E-mail	sarah.royce@wrexham.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Gofynnir i chi i ddod i **Gyfarfod PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** sydd i'w gynnal yn **YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF** ar **DYDD LLUN, 22 GORFFENNAF 2019** am **2.00 pm** i drafod y busnes a nodir isod.

Yn gywir

S Wyn Davies

Sioned Wyn Davies
Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid
Chief Officer Governance & Customer

R H A G L E N

1 Ymddiheuriadau am absenoldeb

2 Cadarnhau Cofnodion
Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2019 fel cofnod cywir *(Tudalennau 5 - 8)*

3 Datganiadau o gysylltiadau personol, os oes rhai
Atgoffir yr Aelodau o'u cyfrifoldeb, dan Baragraff 11 o God Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan bodolaeth a natur unrhyw gysylltiad personol mewn perthynas ag unrhyw un o'r busnesau i'w trafod yn y cyfarfod hwn

4 Unrhyw eitemau eraill y mae'r Cadeirydd yn penderfynu eu bod yn rhai brys

5 Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd
Wrth ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r rhan nesaf o'r cyfarfod, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu ar brawf lles y cyhoedd.

Eitemau 6 – 11: Mae'r Swyddog Priodol wedi penderfynu y dylai paragraff 12 fod

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.
We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.

yn gymwys wrth ystyried yr adroddiad hwn. Ei barn o ran prawf lles y cyhoedd oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu data personol yn ymwneud ag unigolyn, ac yn groes i egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Oherwydd hyn a gan nad oedd yn ymddangos bod lles cyhoeddus llethol o blaid datgelu gwybodaeth bersonol, roedd hi o'r farn bod lles y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn drech na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

Felly, argymhellir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r Cyfarfod tra bydd yr eitemau canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

6 **Cais Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat**
I ystyried adroddiad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio *(Tudalennau 9 - 20)*

7 **Cais Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat**
I ystyried adroddiad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio *(Tudalennau 21 - 28)*

8 **Cais Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat**
I ystyried adroddiad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio *(Tudalennau 29 - 36)*

9 **Ymddygiad gyrrwr Hurio Preifat**
I ystyried adroddiad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio *(Tudalennau 37 - 50)*

10 **Cais Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat**
I ystyried adroddiad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio *(Tudalennau 51 - 58)*

11 **Ymddygiad gyrrwr Hurio Preifat**
I ystyried adroddiad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio *(Tudalennau 59 - 66)*

12 **Unrhyw eitemau eraill y mae'r Cadeirydd yn penderfynu eu bod yn rhai brys**

I'R: CADEIRYDD AC AELODAU O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL

Y Cynghorydd	I David Bithell, MBE (Is-gadeirydd)	Y Cynghorydd	Tina Mannering
"	Brian Cameron	"	M G Morris
"	Krista Childs	"	Beverley Parry-Jones
"	T Alan Edwards (Cadeirydd)	"	Paul Pemberton
"	Gwenfair Jones	"	John Phillips
"	Geoff Lowe	"	Robert Walsh
	David Maddocks	"	Derek Wright

(Noder yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Mynediad i Wybodaeth, fel a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, nid yw'r adroddiadau a gyfeiriwyd atynt yn eitemau'r Agenda 6 i 11 wedi'u dosbarthu i unrhyw Aelodau nad ydynt yn gwasanaethau ar y Pwyllgor).

COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF AR DYDD LLUN, 24 MEHEFIN 2019

AELODAU

Y Cynghorydd T Alan Edwards, Cadeirydd
Y Cynghorydd I David Bithell, MBE, Is-Gadeirydd*

Y Cynghorydd		Brian Cameron	Y Cynghorydd		M G Morris
"		Krista Childs	"		Beverley Parry-Jones
"	*	Gwenfair Jones	"		Paul Pemberton
"		Geoff Lowe	"		John Phillips
"		David Maddocks	"		Robert Walsh
"		Tina Mannering	"		Derek Wright

*Yn absennol

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I David Bithell MBE a Gwenfair Jones.

2 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD - Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2019 fel cofnod cywir.

3 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd aelodau o'u cyfrifoldeb, dan Erthygl 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen – y Cynghorydd T Alan Edwards – Cysylltiad Personol sy'n Rhagfarnu – roedd yn adnabod y Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r bleidlais.

Eitem Rhif 9 – Y Cynghorwyr David Maddocks, John Phillips a Paul Pemberton – Cysylltiad Personol sy'n Rhagfarnu – roeddynt yn adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorwyr y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio wedi hynny.

4 UNRHYW EITEMAU ERAILL Y MAE'R CADEIRYDD YN PENDERFYNU EU BOD YN RHAI BRYS

Roedd y Cadeirydd o'r farn y dylid delio â'r mater canlynol fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd y ffaith y byddai oedi diangen pe byddai'n cael ei drosglwyddo i'r cyfarfod nesaf.

Penderfyniadau Anodd – Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Y Pennaeth Gwasanaeth: Dywedodd Gwarchod y Cyhoedd, yn sgil proses Penderfyniadau Anodd y gyllideb, na fyddai profion MOT yn parhau i gael eu cynnig yng nghyfleuster garej y Cyngor ar Ffordd yr Abaty. Roedd Swyddogion ar hyn o bryd yn archwilio dewisiadau eraill ar gyfer profi Cerbydau Hurio Preifat ac yn cysylltu ag awdurdodau lleol eraill o ran y broses roeddent yn ei dilyn yn hyn o beth.

Mynegodd aelodau bryder ynghylch y cynnig hwn a'r diffyg ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor hwn cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

Dywedodd y swyddog y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

5 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Eitemau 6 i 11 ar y Rhaglen: Penderfynodd Aelodau wrth ystyried yr adroddiadau hyn y dylid gweithredu paragraff 12. Eu barn o ran prawf lles y cyhoedd oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu data personol yn ymwneud ag unigolyn, ac yn groes i egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Oherwydd hyn a gan nad oedd yn ymddangos bod lles cyhoeddus aruthrol o blaid datgelu data personol, roeddent yn teimlo bod lles y cyhoedd o ran cadw'r eithriad yn drech na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

PENDERFYNWYD - Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r Cyfarfod tra roedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

6 YMDDYGIAD GYRRWR HURIO PREIFAT/YMDDYGIAD GYRRWR HACNI

Cyflwynodd Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/27/19) i ystyried ymddygiad Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat / Gyrrwr Cerbyd Hacni. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad, a sylwadau'r gyrrwr.

PENDERFYNWYD- Dirymu'r Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat a'r Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni y cyfeirir atynt yn adroddiad COPR/27/19 dan Adran 61 (1) (b) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ar y sail nad yw'r Pwyllgor yn fodlon bod y Gyrrwr Hurio Preifat yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded o'r fath oherwydd ei euogfarnau a thorri amodau'r drwydded ac y dylai'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio ysgrifennu at y Gyrrwr yn rhoi gwybod iddo am bryderon y Pwyllgor.

7 YMDDYGIAD GYRRWR HURIO PREIFAT

(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 2 uchod)

(Gadawodd y Cynghorydd T Alan Edwards Sedd y Cadeirydd ar y pwynt hwn yn y

cyfarfod)

(Y Cynghorydd Paul Pemberton yn Cadeirio)

Cyflwynodd Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/26/19) i ystyried ymddygiad Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad, a sylwadau'r gyrrwr.

PENDERFYNWYD – Dylid atal y Drwydded Gyrwyr Hurio Preifat y cyfeirir ati yn yr adroddiad COPR/26/19 am gyfnod o un mis o dan Adran 61 (1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 oherwydd ei euogfarnau a'i fethiant i gydymffurfio ag amod 12 ei drwydded.

8 CAIS TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

(Y Cynghorydd T. Alan Edwards yn ôl yn Cadeirio)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/22/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a sylwadau'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat fel yr amlinellir yn adroddiad COPR/22/19 a bod Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i ddatgan pryder y Pwyllgor o ran ei euogfarnau diweddar ac i roi rhybudd llym ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

9 CAIS TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 2 uchod)

Cyflwynodd Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/23/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a sylwadau'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat fel yr amlinellwyd yn adroddiad COPR/23/19.

10 CAIS TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

Cyflwynodd Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/25/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a sylwadau'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat fel yr amlinellwyd yn adroddiad COPR/25/19.

11 CAIS TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

Cyflwynodd Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/24/19) i

ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad, sylwadau'r ymgeisydd a'r wybodaeth ategol ychwanegol a ddarparwyd.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat fel yr amlinellwyd yn adroddiad COPR/24/19.

Y Cynghorydd T Alan Edwards
Cadeirydd

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted

Document is Restricted